Adran Gwaith a Phensiynau

# Gwneud cais am **Lwfans Gofalwr**

Hawdd i'w Ddarllen




Ein cyfeirnod: **CA2WER**_0422

# Cynnwys



1

Adran Gwaith a Phensiynau

**Cyflwyniad**

Tudalen 4

2




**Gwybodaeth bydd ei hangen arnoch i wneud cais**

Tudalen 6


3




**Sut i wneud cais**

Tudalen 10

4



**Os bydd eich amgylchiadau'n newid**

Tudalen 13

# Cynnwys


5



**Os nad ydych yn cytuno gyda'n penderfyniad**

Tudalen 17

# 1 Cyflwyniad

Adran Gwaith a Phensiynau

Mae Lwfans Gofalwr yn fudd-dal gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.




Gallech gael Lwfans Gofalwr os:

- Ydych yn gofalu am rywun am o leiaf 35 awr yr wythnos
- Maent yn cael budd-daliadau anabledd penodol.



Nid oes rhaid i'r person rydych yn gofalu amdanynt fod yn berthynas, ac nid oes rhaid i chi fyw gyda nhw.





Bydd y wybodaeth hon yn dweud wrthych:

- Sut i wneud cais am Lwfans Gofalwr
- Sut i roi gwybod am newid yn eich amgylchiadau
- Beth i'w wneud os ydych yn anghytuno gyda'n penderfyniad.

I gael mwy o wybodaeth Hawdd i'w Ddarllen am Lwfans Gofalwr, ewch i www.gov.uk

Chwiliwch am **Easy Read Carer's Allowance**.

# 2 Gwybodaeth bydd ei hangen arnoch i wneud cais




Eich manylion banc a gwaith.

Slipiau cyflog diweddar neu eich P45 os ydych wedi stopio gweithio yn ddiweddar.





Eich rhif Yswiriant Gwladol os oes gennych un.

Os oes gennych bartner, eu rhif Yswiriant Gwladol, os oes ganddynt un.



Manylion unrhyw dreuliau rydych yn eu talu. Gallai hyn gynnwys:

- Cyfraniadau pensiwn
- Y gost o ofalu am eich plant, neu'r person rydych yn gofalu amdanynt fel arfer, tra byddwch yn y gwaith.




Manylion eich cwrs Coleg neu Brifysgol, os ydych yn fyfyriwr.

**Byddwch hefyd angen rhai manylion am y person rydych yn gofalu amdanynt:**




Eu henw, dyddiad geni a chyfeiriad.




Eu rhif Yswiriant Gwladol, os oes ganddynt un.

**Byddwch angen rhai manylion am eu budd-daliadau anabledd, fel:**




- Lwfans Byw i'r Anabl




- Lwfans Gweini
- Lwfans Gweini Cyson




- Taliad Annibyniaeth Personol




- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog



Os ydych yn byw yn yr Alban:

- Taliad Anabledd Plant
- Taliad Anabledd Oedolion.

# 3 Sut i wneud cais





Gwneud cais ar-lein am Lwfans Gofalwr yw'r ffordd cyflymaf o wneud cais.

Er mwyn gwneud hyn, ewch i [www.gov.uk/lwfans-gofalwr/gwneud-cais](http://www.gov.uk/lwfans-gofalwr/gwneud-cais) a dewiswch **Gwnewch gais nawr**.


Adran Gwaith
a Phensiynau

**Ffurflen DS700W**

Os na allwch wneud cais am Lwfans Gofalwr ar-lein, gallwch lenwi ffurflen gais a'i hanfon trwy'r post.




Gallwch lenwi'r ffurflen gais ar ddyfais, fel cyfrifiadur neu ffôn symudol, ac yna ei hargraffu.



Neu gallwch argraffu ffurflen gais wag a'i llenwi gan ddefnyddio beiro.



Gallwch ein ffonio a gofyn i ni anfon ffurflen gais atoch drwy'r post.

Ffôn: **0800 731 0297**

Ffôn testun: **0800 731 0317**




Os ydych yn cael Pensiwn y Wladwriaeth, mae angen i chi lenwi ffurflen gais gwahanol.

Er mwyn cael ffurflenni cais Lwfans Gofalwr, ewch i [www.gov.uk/government/publications/carers-allowance-claim-form.cy](http://www.gov.uk/government/publications/carers-allowance-claim-form.cy)



Sicrhewch eich bod wedi llofnodi a dyddio'r ffurflen gais cyn i chi ei hanfon atom.



Anfonwch eich ffurflen wedi'i chwblhau i:

Carer's Allowance Unit
Mail Handling Site A
Wolverhampton
WV98 2AB

Nid oes angen i chi ddefnyddio stamp.

## Cael mwy o help a chyngor

- **Carers UK**
  www.carersuk.org/wales
- **Carers Trust**
  www.carers.org
- **Cyngor ar Bopeth**
  www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/Budd-daliadau/sick-or-disabled-people-and-carers/lwfans-gofalwr
- **GIG: Llinell Gymorth Carer's Direct**
  www.nhs.uk/conditions/social-care-and-support-guide/help-from-social-services-and-charities/helplines-and-forums

# 4 Os bydd eich amgylchiadau'n newid



Os bydd eich amgylchiadau'n newid, dywedwch wrthym ar unwaith.

Peidiwch ag aros i ni gysylltu â chi.




Os nad ydych yn dweud wrthym, efallai y bydd yn rhaid i chi fynd i'r llys neu dalu dirwy.


## Efallai gallai'r newidiadau i ddweud wrthym amdanynt gynnwys:



Rydych wedi stopio gofalu am y person y gwnaethoch hawlio ar eu cyfer (hyd yn oed os mai dim ond am wythnos neu fwy).



Nid yw'r person rydych yn gofalu amdanynt bellach yn cael budd-daliadau anabledd.




Os ydych yn dechrau swydd, neu bod swm eich tâl yn newid.




Rydych chi neu'r person rydych yn gofalu amdanynt yn:

- Mynd mewn i'r ysbyty
- Mynd mewn i gartref gofal neu nyrsio
- Mynd dramor ar wyliau.



Mae gennych rif ffôn, cyfeiriad neu fanylion banc newydd.



Os ydych yn dechrau addysg llawn amser neu'n astudio am 21 awr neu fwy'r wythnos.



Os oes rhywun arall yn gofalu am yr un person â chi, **dim ond 1 ohonoch all gael**:

- Lwfans Gofalwr
- Elfen Ofal Credyd Cynhwysol.



Unrhyw newid yn eich statws mewnfudo, os nad ydych yn ddinesydd Prydeinig.

# 5 Os nad ydych yn cytuno gyda'n penderfyniad



Os nad ydych yn cytuno gyda'n penderfyniad, gallwch ofyn i ni edrych arno eto.



Pan fyddwn yn edrych ar y penderfyniad eto, rydym yn galw hyn yn **Ailystyriaeth Orfodol**.

?

Mae '**Ailystyriaeth Orfodol**' yn golygu byddwn yn edrych ar:

- Y wybodaeth gwnaethoch ei rhoi i ni'n wreiddiol
- Unrhyw wybodaeth newydd rydych yn ei rhoi
- A oes unrhyw newidiadau wedi bod yn eich amgylchiadau.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i weld a allwn newid ein penderfyniad.

# 1
# mis

Fel arfer, mae'n rhaid i chi ofyn i ni edrych ar eich cais eto o fewn **1 mis** o ddyddiad eich llythyr penderfyniad.



Os hoffech siarad â ni am ein penderfyniad, ffoniwch Uned Lwfans Gofalwr:

Ffôn: **0800 731 0297**

Ffôn testun: **0800 731 0317**



Os na allwch glywed na siarad ar y ffôn, defnyddiwch **Relay UK**:

**18001** yna **0800 731 0297**

Yn flaenorol, gelwir Relay UK yn Next Generation Text (NGT).



Os ydych yn fyddar ac yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain efallai gallwch ddefnyddio'r **Gwasanaeth Cyfnewid Fideo** (VRS).



Gallwch ysgrifennu llythyr yn dweud wrthym pam nad ydych yn cytuno gyda'n penderfyniad.

Anfonwch eich llythyr i'r cyfeiriad sydd ar eich llythyr penderfyniad.



Os nad oes gennych eich llythyr penderfyniad, cysylltwch â'r swyddfa lle gwnaethoch gais am y budd-dal.




Gallwch hefyd lenwi ffurflen gais am '**Ailystyriaeth Orfodol**'.

Er mwyn cael y ffurflen ac i ddysgu mwy am **Ailystyriaeth Orfodol**, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am **Mandatory Reconsideration**.

Am fwy o wybodaeth Hawdd i'w Ddarllen am Lwfans Gofalwr, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am **Easy Read Carer's Allowance**.